

FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

12 Mehefin 2018

Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun

Yn bresennol:**AELODAU:**

Karen I Evans (KE)
 Neil Foley(NF)
 Dr Paul Evans(PE)
 Sue Dick (SD)
 Bethan Cartwright (BC)
 Mari Gaskell (MG)
 Rona Jones (RJ)
 Mark Hatch (MH)
 Gethin Jones (GJ)
 Huw Hilditch Roberts (HHR)
 Shannon Gage (SG)
 Rona O'Neill (RON)
 Helen Vernon (HV)

RHAI NAD YDYNT YN AELODAU:

Judith Greenhalgh (JG)
 Richard Weigh (RW)
 Steve Gadd (SGadd)
 Cathy Howatson (Cofnodion)
 Vicki Cotgreave (VC)
 Laura Poole (LP)
 Chris Speed (CS)
 Joanne Moore (JM)
 Ian Land (IL)
 Will Jones (WJ)
 Geraint Davies (GD)
 Paul Senior (PS)
 Julian Molloy (JM)

Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant
 Ysgol Uwchradd Prestatyn
 Ysgol Uwchradd Dinbych
 Ysgol Bodfari
 Ysgol Glan Clwyd
 Ysgol Llywelyn
 Ysgol y Santes Ffraid (Cadeirydd)
 Ysgol Dinas Brân
 Ysgol Tremeirchion
 Aelod Arweiniol Addysg
 Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion
 Cynradd
 Ysgol Tir Morfa
 Ysgol Bodnant

Y Prif Weithredwr
 Pennaeth Cyllid
 Prif Gyfrifydd
 Swyddog Cyllido Ysgolion
 Ysgol y Castell
 Rheolwr Busnes a Chyllid - Ffydd
 Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd
 Rheolwr Busnes a Pherfformiad
 Cynllunio ac Adnoddau
 Rheolwr Cyllid – Clwstwr Dinas Brân
 Pen Reolwr Addysg
 Prif Swyddog Cyllid a Sicrwydd
 Uwch Swyddog Gwella Ysgolion

Croeso

Croesawodd Rona Jones (Cadeirydd) y grŵp.
 Croesawodd KE Judith Greehalgh i'r cyfarfod.

Roedd 13 aelodau yn bresennol yn y cyfarfod i wneud cworwm.

1. Ymddiheuriadau

Lindsay Davenport - Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd
 Teleri Llwyd Jones - Ysgol Borthyn (Is-Gadeirydd)
 Dominic Tobin – Y Bendigaid Edward Jones
 Craig Joyce - Rheolwr Ariannu Ysgolion

2. Cofnodion 5/3/18. Cofnodion wedi'u cytuno gan y fforwm.

Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd – Penodwyd Shannon Gage fel cynrychiolydd.

Cynrychiolydd o'r Undeb - Liz McLean fydd cynrychiolydd Undeb yr Athrawon.

3. Monitro Ariannol Ysgolion

A. Balansau terfynol Ysgolion – Cwblhawyd yr alldro a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar ddiwedd mis Mehefin.
 Mae rhestr ffurfiol o falensau ysgol, mae ysgolion yn cario £343k diffyg net ymlaen ar hyn o bryd.
 Mae cyllidebau 2018/19 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer chwyddiant a phwysau demograffeg.

Amcangyfrifwyd diffyg o £1 miliwn ar gyfer 2018/19. Mae hyder wrth symud ymlaen oherwydd bod y cynnydd yn y diffyg net yn bennaf yn ymwneud â 3 ysgol gyda phroblemau hysbys penodol. Derbyniwyd dyraniad ar gyfer grant cynhaliath a'i ddirprwyo i ysgolion gan Lywodraeth Cymru a ddaeth â'r diffyg i lawr.

B. Ysgolion Mewn Trafferth Ariannol

Roedd 26 ysgol yn amcangyfrif diffyg yn 2017/18. Mae hyn yn gostwng diwedd y flwyddyn i 21 ysgol ac mae 2018/19 yn amcangyfrif 16 mewn safle o ddiffyg. Mae'r diffyg net wedi cynyddu oherwydd 3 ysgol. Mae Cyllid ac Addysg yn cydweithio'n agos gyda'r ysgolion hyn.

Gofynnwyd i WJ os bu cadarnhad ar godiad cyflog i athrawon ar gyfer mis Medi. A fuodd cadarnhad os yw'n godiad o 1 neu 2%?

SGadd – nid ydym wedi cael cadarnhad, byddwn yn tybio 2%.

4. Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion

Mae gennym gynllun ar gyfer ariannu ysgolion ar waith. Mae archwiliad wedi dweud ei fod yn hen ac mae agen ei ddiweddarau. Mae CAJ wedi bod yn gweithio ar ddiweddarau'r ddogfen. Roedd templed y ddogfen yn un Saesneg yn wreiddiol ond bu diweddariad/ei newid gyda pholisïau Cymraeg ac ati. Rydym wedi ymgynghori gyda siroedd eraill hefyd.

Mae rhai cwestiynau heb eu trin, oherwydd agweddau technegol cyllidebau ysgolion. Bydd yn cael ei gynnwys ar y rhaglen ym is Hydref i'w gael ei gadarnhau gan yr SBF.

Gwnaed cais gan RJ bod copi yn cael ei anfon cyn y cyfarfod.

CAM GWEITHREDU – CH i anfon copi ymlaen i aelodau'r fforwm cyn yr SBF

5. Gweithdy'r Gyllideb

Awgrymodd KE yn yr SBF blaenorol i gynnal gweithdy cyllidebu. Dylai'r cyfarfod fod wedi cael ei gynnal rhai misoedd yn ôl ond gwaned penderfyniad gan KE a RW i ohirio gan nad oeddent yn gallu rhoi darlun llawn oherwydd newidiadau a chynnydd mewn pwysau ariannol a ddaeth â heriau.

JG – Addysg yn rhan o'r cynllun corfforaethol a'r heriau y cytunwyd arnynt sydd i ddod.

Mae ariannu ysgolion wedi bod yn flaenoriaeth ynghyd â meysydd eraill dros y blynyddoedd. Mae angen i ni gydweithio a dangos ymrwymiad.

RW – Mae aelodau etholedig yn edrych yn agos ar gau'r bwllch ac efallai yn mynd i ofyn i ysgolion wneud cyfraniad tuag at arbedion corfforaethol drwy edrych ar gyllidebau ysgolion ac arbedion effeithlonrwydd i helpu'r cyngor.

Cyflwynodd RW gyflwyniad PowerPoint ar sefyllfa ariannol Sir Ddinbych. Yn cynnwys hanes o ddiogelu ysgolion.

Dylwn wybod ym mis Hydref beth yw'r setliad ariannol gan Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd RJ faint sy'n cael ei dalu i GwE gan Addysg? Mae GwE yn ariannu cyrsiau ond byddai'n ddiddorol gweld pa gyllideb sy'n mynd iddynt.

Gwnaeth KE sylw ein bod yn talu £500k a ffioedd i GwE. Cafodd EIG ac eraill sy'n mynd trwy gonsortiwem ei yrru allan a'i reoli.

Mae angen i drafod yn rhanbarthol beth yw gofyniad statudol. Mae rhagflaenydd y prif weithredwr wedi herio GwE yn y gorffennol.

Cafwyd cadarnhad gan JG ei fod ar y gweill, yn enwedig gyda gweithgarwch lleihau'r gyllideb.

KE o'r farn bod gostyngiad yn hyblygrwydd cyfarwydddeb Llywodraeth Cymru.

HHR – Bu methiannau yn y system ond nawr mewn safle dai i fonitro wrth symud ymlaen.

Gofynnodd SD pe byddai hawl i wybodaeth ar gyllideb GwE? Dywedodd HHR bod y ffigurau sydd ar gael ar y wefan yn dryloyw.

MG – Mae ysgolion wedi bod yn edrych ar arbedion effeithlonrwydd am flynyddoedd ac maent yn gweithredu ar isafswm drwy leihau nifer o staff a llai o gyllid. Ydi GwE hefyd yn cael ei herio ar arbedion?

Cytunodd KE a bydd yn codi hyn gyda GwE ac yn gofyn beth yw'r blaenoriaethau hefyd?

Dros y blynyddoedd rydym wedi adeiladu diwylliant yng Nghyngor Sir Ddinbych i wneud y gorau gyda'r adnoddau sydd gennym.

HHR – Os yw Penaethiaid yn teimlo eu bod yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau nad ydynt yn ychwanegu gwerth, yna mae angen iddynt hysbysu HHR i herio gyda GwE.

SD – GwE yn dweud nad ydym yn cydweithio os nad ydym yn mynd ar gyrsiau a bod angen i ysgolion ymgysylltu.

Mae KE yn teimlo bod darpariaeth Cyngor Sir Ddinbych ar y lefel gorau y gallai fod ac y dylid ymddiried ym mhenderfyniad Penaethiaid ar beth sy'n bwysig a beth sydd ddim yn berthnasol. Bydd KE yn amddiffyn ysgolion.

Mae VC yn dangos pryder ynghylch os ydym yn colli mwy o staff yn y Cyfnod Sylfaen bydd colled ar effaith. Nid dysgu yn unig ond meithrin a'r elfen gymdeithasol y mae'r ysgol yn eu hamsugno. Bydd colli mwy o staff yn achosi problemau cymdeithasol.

Awgrymodd JG y byddai yr arbedion angenrheidiol gan ysgolion yn gyfraniad bach, ac yn % sengl o bosib.

SG - Pan rydym mewn sefyllfa SIFD fodd bynnag byddai canran fechan yn cael effaith fawr ar ysgol SIFD.

MG – Mae gan y cynnydd mewn cyflogau cenedlaethol effaith ar undebau a chostau staffio.

RW – Mae'r Sir yn noddï chwyddiant craidd ynghyd â chostau byw.

HHR – Mae gan rhai o'r Cyngorwyr y meddylfryd bod addysg yn cael ei ddiogelu. Gallai hyn achosi problemau gwleidyddol.

LP – Mae ysgolion ar ddeall bod cyllid yn cael ei ddiogelu ond mae angen iddynt gefnogi rhagor o wasanaethau.

Eglurodd KE bod gan Addysg gyllid i ddiogelu ysgolion. Rhoddodd dirprwyaeth Cyngor Sir Ddinbych mwy o gyllidebau dan arweinyddiaeth Leighton Andrews.

Roedd Karen yn teimlo bod angen i ni brofi'r fformiwla bresennol ac edrych ar ddirprwyaeth dyletswyddau ac atebolrwyddau hefyd.

Cytunodd MG. Mae gennym fwy o wybodaeth ar y cyd nawr a gallwn herio cyllidebau. Mae effaith ar les a Phenaethiaid a staff ysgolion hefyd.

Mae'n rhaid edrych ar SLA i weld os yw'n werth am arian.

Bydd KE yn trafod hyn yn niwrnod y Penaethiaid.

Gofynnodd LP os yw'r adran gaffael yn edych ar y fargen orau ar gyfer ysgolion?

Awgrymodd KE bod Grwpiau Tasg a Gorffen yn edrych ar:-

1. Fformiwla Cyllideb - yr un blaenorol, dim ond rhai elfennau, tro hwn yr holl elfennau, i'w grybwyll yn y diwrnod Penaethiaid.

Gwirfoddolwyr – Shannon Gage, Vicki Cotgreave, Mari Gaskell, Bethan Cartwright

2. Dirprwyaeth – Edrych ar rannu darpariaethau/grym gwario, nid yw'n rhan o'r adolygiad fformiwla
Gwirfoddolwyr - Rona Jones, Mari Gaskell, Sue Dick

3. Polisi ar weddillion – Polisi ar weddillion a herio pam mae gennym weddillion.

MG – Dymuna ysgolion SIFD drafod i'r ysgolion am weddillion.

Bydd Karen Evans a Richard Weigh yn trafod hyn.

Bydd GwE yn cael ei symud ymlaen

JM - Mae adolygiad mewnol Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd.

KE – Mae'r adolygiadau yn amserol oherwydd y nifer o wahanol Benaethiaid.

Awgrymodd SGadd bod angen set o egwyddorion fel canllaw i'r broses ac i helpu gyda ffocysu'r gwaith. Mae'n rhaid cytuno ar egwyddorion yn y cyfarfod cyntaf, er enghraifft, gallant gynnwys, ac anelu i gadw/gwneud y fformiwla:

- Teg
- Dealladwy a thryloyw

- Syml
- Dull o ddyrannu cyllideb ddirprwyedig (heb ariannu costau unigol)
- Cadarn / Sefydlog
- Cynaliadwy ar gyfer pob ysgol

Ei gadw'n syml gan fod gan Gyngor Sir Ddinbych un o'r fformiwlâu gorau yng Nghymru.

Diolchodd KE y grŵp.

Diolchodd JG y grŵp ac roedd hi wedi teimlo egni positif yn yr ystafell ac roedd hi'n hyderus y byddwn yn dod o hyd i ddatrysiad da.

CAM GWEITHREDU - CH i anfon copi o'r cyflwyniad i aelodau'r grŵp

6. Diweddariad EAL

JM - ymgynghoriad wedi cael ei gwblhau gydag ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru nawr wedi rhyddhau cyllid trawsnewid sy'n golygu y bydd 1 aelod o staff dysgu yn cael eu cadw o fewn y gwasanaeth. Mae JM wedi trefnu cyfarfod ychwanegol i weithio gydag ysgolion ar 20 Mehefin.

Bydd JM yn cylchredeg trefniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf, ni fydd SLA i fynd drwy ymgynghoriad.

Os oes gan yr ysgol unrhyw sylwadau neu adborth cyn hynny, mae'n rhaid anfon neges e-bost at JM.

Un o'r prif newidiadau yw cynnwys gwasanaeth EAL ar lefel atgyfeiriad cynhwysiant.

Diolchodd MG Jo Moore a gofynnodd a oes trafodaeth yn parhau yn ymwneud ag ariannu Wrecsam?

Cadarnhaodd KE bod trafodaethau wedi bod gyda Wrecsam yn ymwneud â chynnig rhanbarthol

Llywodraeth Cymru. Mae'r dyraniad y cawsant ar gyfer Wrecsam yn unig. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cyllid ychwanegol am lefel y gwasanaeth a gynhaliwyd eleni.

JM – Ni fydd y gwasanaeth yn debyg yn symud ymlaen a byd ailfodelu o'r gwasanaeth presennol.

Mae KE yn teimlo ei fod yn bositif a gallwn nawr edrych ar beth y gallwn gynnig a beth yw cyfrifoldebau craidd dysgwyr Saesneg fel laith Ychwanegol.

7. Materion yn codi o'r cyfarfodydd Clwstwr

Dim

8. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

Copi o'r cynllun gwaith i'r dyfodol drafft sydd wedi cael ei ddsbarthu.

CAM GWEITHREDU – Cytunodd y Fforwm ar y rhaglen waith.

9. Unrhyw Fater Arall

Mynediad PD – Datganiad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â gwisg ysgol. Bydd CS yn anfon negeseuon e-bost am ragor o wybodaeth pan mae'n ei dderbyn.

Gofynnodd SG a oedd yn berthnasol i fabanod sy'n mynd i ysgolion lau (ar wahân). Plant sy'n mynd i flwyddyn 7 ac i'r dosbarth derbyn fydd yn gymwys yn unig.

Dymuna KE i'r SBF gael trafodaeth ar grantiau a lle maent yn eistedd. Mae angen i ni edrych ar beth mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu i Awdurdodau hefyd. Caiff hyn ei ychwanegu fel eitem ar y rhaglen.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Llun 8 Hydref 2017, Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.